# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 9fed o Fai 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans, Rhys Tudur, Margaret Griffith, Anwen Jones, Aled Davies, Delyth Parry, Darren Morley, Euros Jones, Dylan Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Angela Williams, Tegid Jones, Miriam Williams a Gareth O. Davies.

**Rhaglen Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 9fed o Fai 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Capel Pencaenewydd, a drwy Zoom.**

## Cyfarfod Blynyddol (yn cychwyn 7.00 y.h. am yr 20 munud cyntaf)

1. Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol 4ydd o Fai, 2023. **Derbyn.**

3. Materion yn codi o'r cofnodion-dim.

4. **Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af o Ebrill, 2023 i'r 31ain o Fawrth, 2024 gan y Cadeirydd**.

Ym mis Mai 2023, croesawyd y Cynghorydd Euros Jones atom i Ward Llangybi, yn dilyn ymddeoliad y Cynghorydd Twm Prys Jones.

Hefyd penderfynodd y Cynghorydd Sion Aled Jones roi'r gorau iddi, a byddwn yn gwneud trefniadau i gael aelod newydd yn ei le i Ward Llanystumdwy yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rydym yn parhau i gyfarfod wyneb yn wyneb, gyda'r opsiwn o fod yn rhithiol bob tro.

Fe wnaed yr holl waith arferol o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau a'r cae chwarae.

Fe wnaeth ddiolch i bawb am ei gwaith a'r Clerc am ei chymorth tra bu yn Gadeirydd.

5. **Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill, 2023 i'r 31ain o Fawrth, 2024 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Derbyn y cyfrifon am y flwyddyn.**

Dechrau Ebrill 2023 roedd cyfanswm o £15,445.47 gennym yn y 2 cyfrif, sef £10,844.68 yn y cyfrif cyfredol a £4,600.79 mewn cyfrif cadw.

Erbyn diwedd Mawrth 2024 roedd y cyfanswm yn £17,206.04 yn y 2 cyfrif.

Rhaid cofio fod £2000.00 o grant gan Gronfa Park-Jones tuag at wefan newydd Cof Eifionydd yn y ffigwr yma, a ni dderbyniwyd manylion costau cyswllt Wifi yn Neuadd Llanystumdwy.

Roedd y praesept yn £19,000.00 llynedd.

- Derbyniwyd ad-daliad TAW o £839.70 llynedd, ac eleni bydd y swm yn £306.36.
- Derbyniwyd ad-daliad o £417.80 gan Cyngor Gwynedd am waith ar y llwybrau, sef yr un ffigwr a'r flwyddyn cynt.
- Derbyniwyd £5138.17 gan gwmni Lightsource a oedd yn £418.22 yn fwy na'r flwyddyn cynt.

Yn ystod y flwyddyn fe dalwyd £9,348.07 o daliadau o'r cyfrif cyfredol tuag at geisiadau am gymorth ariannol, a oedd yn cynnwys arian Lightsource. Roedd hyn y cynnwys talu am gyswllt Wifi yn Capel Pencaenewydd, Neuadd Chwilog, mynwentydd lleol, cylchoedd meithrin, clybiau lleol, ac Eisteddfod Chwilog.

Yn ogystal a hyn talwyd am farbio'r llwybrau, cadw'r cae chwarae yn daclus, a talwyd £2,000.00 i Cyngor Gwynedd tuag at ofalu am y toiledau yn Llanystumdwy.

Fe wnaeth yr archwilwyr mewnol ac allanol gadarnhau fod popeth yn iawn hefo'r archwiliad.

Y bwriad yw parhau hefo'r drefn o anfon y gyllideb/cyfrifon bob mis cyn y cyfarfod i gadw golwg ar y gwariant.

Diolchodd y Clerc i'r Cadeirydd a phawb am ei cymorth yn ystod y flwyddyn i hwyluso ei gwaith.

6. Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau – neb yn bresennol.

7. Ethol swyddogion am y flwyddyn hyd at 30ain o Ebrill, 2025:

a) **Cadeirydd – Cynghorydd Aled Lloyd Evans** (trefnwyd i lofnodi datgan derbyn swydd).

b) **Is gadeirydd- Cynghorydd Anwen Jones** (trefnwyd i lofnodi datgan derbyn swydd).

c) **<u>Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol</u>** - aros yr un fath/dim newid.

ch) **<u>Elusen William Ellis</u>**, Llanystumdwy - Cynghorwyr Ward Llanystumdwy i gyd.

8. Cadarnhau a oes angen newid unrhyw aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor – Mae'r Cynghorydd Euros Jones am fod ar y Pwyllgor Polisi.

9. Dewis cynrychiolydd i:-

a) Pwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru – Is-gadeirydd.

b) Grwp Mynediad Dwyfor – Cynghorydd Dylan Fón Thomas.

10. **<u>Polisiau</u>** – y Clerc wedi cysylltu hefo Un Llais Cymru, ac wedi cael gwybod bydd y Rheoliadau Ariannol newydd ar gael ganddynt fis Mai/Mehefin, a bod y rhai diwethaf wedi cael ei cynhyrchu yn 2019. Dywedwyd hefyd ei bod yn arfer da i adolygu ein holl bolisiau

allweddol bob 4 neu 5 mlynedd. Mae ein polisiau i gyd wedi cael ei adolygu ar 03.06.2021, ac fe wnaed Rheoliadau Sefydlog Newydd ar 05.10.2023. Felly mae pob dim yn iawn ar hyn o bryd.

Diolchwyd i'r Cadeirydd Sian Angharad Parry a'r Clerc am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.

## CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR (cychwyn am 7:20 y.h.)

1. Ymddiheuriadau-gweler uchod.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 9fed o Fai 2024.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mai 2024 –
4. Datgan buddiant personol - neb.
5. Materion gan Cyngor Gwynedd

**Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mai 2024**

| Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Penbryn – Gaerddu, Llangybi | Gwaith arwisgo Dwyfor yn cychwyn 28/05 | Priffyrdd |

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

**a) Cais rhif: C24/0262/41/LL - Mur Crusto, Llangybi, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LX**
Defnyddio rhan o gae ar dir ger ffermdy Mur Crusto i osod paneli solar. **Dim gwrthwynebiad**.

**b) Cais rhif: C24/0331/41/LL – Ty'n Lôn, Afonwen, Pwllheli,**
Cais am 9 carafan ychwanegol ar y cae carafanau. **Gwrthod oherwydd fod hyn yn creu gor-dwristiaeth yn yr ardal. Mae gennym bryder nad oes diffiniad o 'ormodedd' yn y rheolau cynllunio. Mae hefyd bryder nad yw'r cais cynllunio presennol yn cydymffurfio, sef fod clawdd yn ei cuddio nhw.**

7. **Sedd wag** – mae angen un Cynghorydd yn Ward Llanystumdwy. Mae'r Clerc wedi cysylltu hefo'r Adran Etholadiau ond heb dderbyn manylion eto. Pan ddaw'r wybodaeth bydd y Clerc yn rhoi hysbyseb ar y wefan, ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy.

8. **Cyfarfod Ardal Ni 2035 - Dalgylch Pwllheli dydd Mawrth 18.06.2024 am 5:00**, yn Hwb Cymunedol Clwb Pel Droed Pwllheli, Heol Hamdden, Pwllheli.

Derbyniwyd ebost gan Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau, Ardal Llŷn a Pwllheli. Maent wedi gwneud cynlluniau drafft i'w rhannu ac yn awyddus i gael trafodaeth er mwyn edrych ar drefniadau lleol all arwain at gydweithio ar brosiectau sydd yn y cynlluniau gweithredu lleol.
Bydd y cynllun lleol yn ddogfen fyw a bydd cytuno fel cymuned leol ar drefniadau i weithredu ac hefyd diweddaru i lwyddiant y cynlluniau. Gall y cynlluniau fod o fantais wrth ymgeisio am gyllid i brosiectau cymunedol.

Er mwyn cychwyn ar y gwaith o sefydlu trefniadau lleol i sicrhau bod y Cynllun Ardal yn ddogfen weithio fyw gyda phrosiectau yn cael ei gweithredu maent yn anfon gwahoddiad i'r sesiwn.
**Maent angen gwybod os gall cynrychiolaeth o'r Cyngor fod yn bresennol erbyn 16.05.2024 ac fe wnaeth Cynghorwyr Dylan Thomas ac Aled Lloyd Evans gynnig mynychu'r cyfarfod**.

9. **Hwb Iechyd Eifionydd**
Derbyniwyd y wybodaeth isod gan y Grŵp Cleifion Hwb Iechyd Eifionydd, o'r materion a drafodwyd yn ei cyfarfod yn ddiweddar.

a) Staffio
   Trafodwyd y rhwystredigaeth o'r amser mae'n gymryd i'r Bwrdd Iechyd roi caniatad i'r feddygfa apwyntio staff newydd yn y dderbynfa sydd yn ei dro yn rhoi pwysau ar y tîm, ac o bryd i'w gilydd yn arwain at fethu cynnal 'syrjeri' ym Mhorthmadog
   Cafwyd diweddariad ar yr Academi sydd wedi'i leoli yng Nghricieth sy'n uwch-sgilio staff meddygol er mwyn darparu staff yn y dyfodol i feddygfeydd y dalgylch.

b) Apwyntiadau
   Roedd canmol i'r uned frys yn Alltwen sy'n galluogi'r Hwb Iechyd i anfon rhai cleifion yno os ydyn nhw angen cymorth gyda chyflwr newydd. Mae hyn yn rhyddhau y meddygon yng Nghricieth a Phorthmadog i weld cleifion gyda chyflyrau mwy cyson ac mae mwy o gleifion yn cael eu gweld o gyfuno'r ddau wasanaeth.
   Rhannwyd adborth fod pobl yn gorfod aros yn hir ar y ffôn i gael apwyntiad. Pan fo hyn yn digwydd mae'n bennaf oherwydd prinder staff ar y dderbynfa a'r oedi cyn gallu llenwi swyddi. Os nad ydi'r alwad yn un brys mae opsiwn i gleifion ebostio'r feddygfa ar enquiries.w94021@wales.nhs.uk. **Derbyn**.

10. **Cyfarfod Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru, 24.04.2024**
Y Cynghorydd Aled Evans a'r Clerc wedi mynychu'r cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Pwllheli. Cafwyd cyflwyniad gan Llais Cymru, sef y corff gwarchod iechyd newydd sy'n gyfrifol am fod yn llais i bawb ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Y Clerc wedi anfon copi o'r cyfwyniad at bawb. **Derbyn**.

11. **Ceir Trydan**
Mae Cyngor Tref Nefyn wedi ysgrifennu llythyr at Dyfrig ap Siencyn yn dilyn darllen erthygl yn y Cambrian News ynglyn a bwriad Cyngor Gwynedd i wario £1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf ar 67 o geir trydan. Maent yn gofyn am gefnogaeth yn y mater yma drwy anfon llythyr ato i wrthwynebu'r bwriad. Maent hefyd wedi atodi copi o'r llythyr sydd wedi cael ei anfon gan Cyngor Tref Nefyn ac mae croeso i ni ei ddefnyddio a rhoi enw ein Cyngor Cymuned arno. **Derbyniwyd ymateb gan Arweinydd y Cyngor cyn y cyfarfod yn egluro'r rhesymau.**

12. **Toriadau i wasanaethau rheilffordd**
Derbyniwyd ebost gan Dr Jeff Smith, Cadeirydd SARPA, grŵp defnyddwyr Rheilffyrdd y Cambrian, yn ein annog i wrthwynebu'r toriadau difrifol i'r gwasnaethau rheilffordd. Maent angen i ni ymateb i ymgynghoriad Trafnidiaeth Cymru erbyn **12.05.2024**. **Cytuno i wrthwynebu'r toriadau.**

**Materion yn y gymuned**.

13. **Llanystumdwy**
a) **Pont Llanystumdwy** – mae canclwm wedi dechrau tyfu yno eto, felly mae'r Clerc wedi trefnu iddo gael ei chwistrellu, ar 04.05.2024 yn dilyn caniatâd gan y Cynghorwyr.

b) **Coeden wedi syrthio i'r afon ger Pont Llanystumdwy** – Clerc wedi cysylltu hefo Cyfoeth Naturiol Cymru.

c) **Hen chwarel ger Mynwent Llanystumdwy** – Clerc wedi hysbysu Adran Gorfodaeth fod y safle wedi ei glirio, a bod carafan yno.

14. **Rhoslan/Ynys**
15. **Chwilog**

**Tyllau yn y lon ger Tyddyn Heilyn**
Derbyniwyd gwybodaeth gan Euron Jones, Uwch Beiriannydd, Cyngor Gwynedd yn dweud fod y ffordd ar y rhaglen ail wynebu i'w blaenoriaethu.
Dywedodd nad oedd yn bosib rhoi dyddiad pryd fydd hyn yn digwydd oherwydd pwysau ariannol ar yr adran a'r Cyngor ynghyd â chynnydd sylweddol mewn cost ail-wynebu yn y blynyddoedd diweddar.

16. **Dwr yn gorlifo ar y Lôn Goed o gyfeiriad fferm Gaerwen.**
Derbyniwyd gwybodaeth gan Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, ei fod wedi ceisio datrys y broblem efo'r cwlfer sydd yn achosi'r difrod, drwy glirio'r cwlfer arall pellach i fyny o Gaerwen roedd hefyd yn gorlifo ar y Lôn Goed. Mae'n gobeithio clirio'r cwlfer broblemus yma yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd. Fel cam dros dro mae wedi gofyn i gontractwr geisio tynnu garreg fawr o'r gwlfer nes i lawr am Maes Gwyn, ac wedyn tynnu'r ffens o flaen y cwlfer broblemus gan obeithio bydd hyn yn ddigon i gostwng lefel y pwll sydd wedi codi yn y cae uwchben.

17. **Llwybr drosodd i'r traeth ochr yr hen orsaf Afonwen.**
Derbyniwyd cais gan drethdalwr, yn son fod y llwybr yma'n cael cryn ddefnydd. Dywedodd nad oes ffordd arall i gyrraedd ochr yma o'r traeth, ond drwy ddefnyddio'r bont gerdded dros yr afon ac yna defnyddio'r llwybr. Nid yw'n annisgwyl fod y llwybr yn wlyb ar hyn o bryd ond hyd yn oed ar dywydd sychach mae bron yn amhosib mynd ar ei hyd oherwydd y mwd ac mae'n hawdd llithro. Gwnaeth hefyd ofyn os oedd yn bosib graeanu'r llwybr yma, ond yn sylweddoli fod y cyllid yn brin. Gofynodd tybed a fyddai Hafan y Môr yn ystyried rhoi cyfraniad at y gwaith gan fod nifer o'i ymwelwyr yn defnyddio'r llwybr.
**Clerc wedi derbyn ebost gan Dewi Wyn Hughes, Swyddog Hawliau Tramwy, yn dweud y byddai yn mynd yno i weld y safle.**

18. **Pencaenewydd/Sardis**
19. **Llangybi**
    a) Mae angen clirio ffos rhwng gwaelod pentref Llangybi a Gwernallt, mae'r ffos yn llawn cerrig, priciau a dail ac os ydi hi'n bwrw'n drwm, yna mae cynnwys y ffos yn cael ei wasgaru ar hyd y ffordd bob tro.
    b) Twll mawr ar y ffordd yn agos i'r uchod, angen ei lenwi. Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd am y ddau fater.

20. **Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2024 ymlaen**.

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.

f. **Maenywern, Llanystumdwy** – gwaith clirio tir y Cyngor ger y bont ac ar hyd y wal i fyny tuag at y Bedd.
***Roedd hysbyseb wedi cael ei roi ar y wefan, ac Y Ffynnon i gael prisiau, hefo dyddiad cau 30.04.2024, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod 9 Mai 2024.***

ff. **Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi** (*cytundeb 3 mlynedd angen ei wneud rhwng Mai 2024-diwedd Mawrth 2027).*
g. **Glanhau llochesi bws** – nid oes angen cytundeb newydd oherwydd gwnaed un llynedd am 2 flynedd hyd at 31.03.2025.

**Derbyniwyd 3 tendr, ac fe basiwyd i rannu'r gwaith, sef Mr Alan Adams i wneud y Cae Chwarae am flwyddyn, a llwybr i ben Garn Bentyrch, a bod Mr Rhys Jones yn gwneud y llwybrau a'r mannau eraill am y flwyddyn.**

Roedd y Clerc wedi mynd ar hyd y llwybr o Ynysgain Bach am y rheilffordd, Bont Fechan am Ty'n Morfa ac o dan y rheilffordd i draeth Afonwen yn ddiweddar, ac roedd ei cyflwr yn dda iawn yn dilyn y gaeaf, er bod 'mwd' mewn mannau ger Ynysgain ac yn ymyl traeth Afonwen.

Y Clerc eisioes wedi hysbysu Cyngor Gwynedd am y 'mwd' sydd mewn 2 le ar yr un yn Afonwen, felly bydd yn ei hysbysu am yr un yn Ynysgain hefyd. Mae cryn dipyn o ganclwm mewn mannau ger Bont Fechan, felly bydd angen ei hysbysu o hynny hefyd.

21. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.04.2024. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

Roedd y Clerc wedi gwneud y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llwydoraethu Blynyddol am y flwyddyn yn diweddu 31.03.2024 o flaen y cyfarfod, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor. Bydd y Clerc rwan yn gallu anfon y manylion at yr archwilwyr mewnol ac allanol.

22. **Praesept** – wedi derbyn yr hanner cyntaf, sef £10,000.00 ar 01.05.2024.

23. **Cyflog Clerc** – Ar sail gohebiaeth a dderbyniwyd gan NALC drwy Un Llais Cymru a SLCC ar 06.11.2023, derbyniwyd tabl graddfeydd cyflog ar gyfer clercod. Ar hyn o bryd mae'r tabl yma dal i fod yn gyfredol. Mae cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 22 – 28, o'r raddfa cenedlaethol SCP.
Felly, mae cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 1af, 2024 ymlaen yn symud i fyny ar y raddfa cyflog, o **pwynt 23 i pwynt 24, sef o £16.67 i £17.16 yr awr, x 35 awr y mis = £600.60**.
Mae cyflog y Clerc yn ol y cytundeb cyflogaeth yn datgan:-

1. **"Cyflog**
2. "Ar yr amod fod eich perfformiad yn foddhaol, byddwch yn symud yn awtomatig drwy'r raddfa gyflog trwy godiadau blynyddol hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Bydd eich codiad cyflog cyntaf yn daladwy ar 1 Ebrill 2019 ac wedi hynny ar 1af Ebrill bob blwyddyn hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Gall y Cyngor ddal codiad cyflog yn ôl os bernir fod eich perfformiad yn is na'r disgwyl, yn dilyn adolygiad blynyddol."
3. "Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Amodau Gwaith 22.11.2023 cytunwyd i gynyddu cyflog y **Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol o'r 01.01.2024 i bwynt 23, sef £16.67 yr awr sef ar raddfa LC2 cenedlaethol SPC rhwng pwynt 22 – 28**. Bydd yn codi bob Ebrill wedyn tan y

bydd yn cyrraedd uchafbwynt y raddfa, cyn belled a bod y performiad gwaith yn foddhaol". **Cytuno i godi'r cyflog i pwynt 24 o'r 01.04.2024**.

24. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| ICO | Drwy ddebyd uniongyrchol | **35.00** | | **35.00** | **35.00** |
| Cyngor Gwynedd | Gwagio bin baw ci Chwilog (007950B0082239F) | **200.72** | **40.14** | **240.86** | **240.86** |
| Zurich | Yswiriant (01.06.2024-31.05.2025) | **732.64** | | **732.64** | **732.64** |
| Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bws (3599) | **182.50** | **36.50** | **219.00** | **219.00** |
| Trin Coed, Ty'n Llwyn | Trin canclwm ger Afon Llanystumdwy (333) | **100.00** | | **100.00** | **100.00** |

25. Cyflog mis Ebrill 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ebrill 2024<br>35 awr y mis x £17.16 = £600.60 | 600.60 = Llai treth £120.12 = **£480.48** | **480.48** | **480.48** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Ebrill 2024 | 600.60 x 20% = **£120.12** | **120.12** | **120.12** |
| Costau swyddfa'r Clerc Ebrill 2024 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

26. **Mynwent Newydd Llanystumdwy.**
Derbyniwyd gwybodaeth gan Mrs Awen Hamilton, fod sbwriel yn dal i gael ei roi yn y bin brown. Gwnaeth y Cynghorydd Dylan Thomas gynnig gwneud arwydd iddi ei roi yno yn dweud fod camera yno. **Derbyn**.

27. **Llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen** – gofynwyd i'r Clerc gael diweddariad ar y sefyllfa, erbyn y cyfarfod nesaf.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y nos Iau **06.06.2024 am 7:00**, yn Neuadd Llanystumdwy a drwy zoom.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**